ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mehefin 2019

Eisteddfod yr Urdd 2019

Llongyfarchiadau mawr i Emma Buckley Bl.9 a ddaeth yn gyntaf yn yr unawd telyn, Annest Edwards Bl.11 ar gael 2il a 3ydd ar y cyfansoddi, Lowri Glain Roberts Bl.9 ar gyrraedd y Genedlaethol ar yr unawd Cerdd Dant a Non Jones Bl.10 hefyd ar gyrraedd y Genedlaethol ar y dawnsio disgo. Da iawn chi.

Cystadleuaeth Mathemategol – llongyfarchiadau i Olaf Niechcial am gyrraedd safon uchel iawn mewn Cystadleuaeth Mathemategol Prifysgol Bangor. Derbyniodd wobr yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro ar y 30ain o Fai, 2019 gan yr Athro Emeritws Gareth Ffowc Robers. Da iawn ti Olaf.

Raffl Adran Addysg Gorfforol - Llongyfarchiadau i Jac Smith ar ennill raffl wedi ei drefnu gan Adran Addysg Gorfforol Ysgol Eifionydd – ei wobr oedd crys Rygbi Cymru wedi ei arwyddo gan garfan 6 Gwlad Cymru.

Agoriad Swyddogol Hafod y Gest – ar y 13eg o Fehefin aeth Emma Buckely, Lowri Glain Roberts a Nel Evans i gynrychioli'r ysgol yn agoriad swyddogol Hafod y Gest. Diolch i chi genod ac i Miss Llio Dudley am drefu'r eitem gerddorol.